

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**RHONDDA CYNON TAF**

**(FFORDD PENYCOEDCAE, PENYCOEDCAE)**

**GORCHYMYN (CAU FFORDD DROS DRO) 2021**

**DYMA HYSBYSIAD** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu gwneud Gorchymyn, ar ôl o leiaf 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad yma, o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (Cyfyngiadau Dros Dro), a fydd yn para deunaw mis ar y mwyaf.

Effaith y Gorchymyn fydd cau Heol Penycoedcae, o'r rhan o'r ffordd sy'n 140 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Heol-Y-Beddau, tua'r gogledd am 1.8km.

Mae angen y cyfyngiad er mwyn cynnal gwaith ar y ffordd ney wrth ei hymyl hi mewn cysylltiad â gwaith diogelu gan BT Openreach.

Mae disgwyl i'r ffordd fod ar gau rhwng 8.00am a 5.00pm o 13 tan 21 Chwefror 2021, neu nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau.


Bydd y llwybr amgen i deithwyr yn mynd o ochr ddeheuol y ffordd sydd wedi'i chau, ar hyd Heol Penycoedcae, Heol Gwaunmeisgyn, B4595 Ffordd Llantrisant, Heol Ton-teg, Cylchfan Glan-bad, yr A470, Broadway, Heol Sardis, Lôn y Ffatri, Ffordd Llantrisant a Ffordd Penycoedcae i ochr ogleddol y ffordd sydd wedi'i chau.

Os ydych chi'n teithio o'r cyfeiriad arall, bydd eisiau dilyn y cyfarwyddiadau uchod ond i'r gwrthwyneb.

Bydd mynediad ar gael i gerddwyr a cherbydau'r gwasanaethau brys ar bob adeg.

Bydd mynediad i'r eiddo o fewn y rhan sydd i'w chau, a bydd aelod o staff wrth law.

**Dyddiad 26 Ionawr 2021**



**Andrew Wilkins**  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm  
Clydach, CF40 2XX

**RHONDDA CYNON TAFF**

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(PENYCOEDCAE ROAD, PENYCOEDCAE)**

**(TEMPORARY ROAD CLOSURE) ORDER 2021**

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council, intends, not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, as amended by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991, which will have a maximum duration of eighteen months.

The effect of the Order will be to close Penycoedcae Road, from a point 140 metres north of its junction with Heol-Y-Beddau, northwards for a distance of 1.8km

The restriction is necessary to enable works to be executed on or near the road in connection with safety works on behalf of BT Openreach

The closure is expected to be in operation between 8:00am to 5:00pm from 13th – 21st February 2021, or until such time as the works have been completed.


The alternative route is from the southern side of the closure, proceed via Penycoedcae Road, Gwaunmiskin Road, B4595 Llantrisant Road, Tonteg Road, Upper Boat Roundabout, A470, Broadway, Sardis Road, Factory Lane, Llantrisant Road and Penycoedcae Road to the northern side of the closure

The route for drivers travelling in the opposite direction is the reverse of the above.

Access for pedestrians and emergency service vehicles will be maintained at all times.

The closure will be manned and access will be maintained to properties within the extent of the road closure.

**Dated 26 January 2021**



**Andrew Wilkins**  
Director of Legal Services  
The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40  
2XX